

**COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR Y 1 MAI 2024**

Yn bresennol:	Y Cadeirydd Hefin W. Jones.
Y Cynghorwyr:	Enid Roberts, Idwal Williams, Richard Davies, Llywarch Davies, Keith O'Brien.
Hefyd yn bresennol:	Karen Hughes (Swyddog Ariannol) Lona Williams (Clerc)
Ymddiheuriadau	Elfed Roberts (Cyngorydd Sir), A Huw Jones, Helen W Jones, Aron Roberts

**2380 - COFNODION**

Cyflwynwyd, cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y 3ydd o Ebrill fel y rhai cywir gan y Cadeirydd.

**2381 - ETHOL SWYDDOGION**

Adroddwyd fod y cadeirydd presennol Hefin Jones am roi'r gorau i'r swydd a bod y cyngorydd Anest Smith am fod yn is gadeirydd. Diweddarwyd a mireinwyd rhestr yr is bwyllgorau. Penderfynwyd y bydd rhaid ethol cadeirydd yn y cyfarfod nesaf.

**2382 - MATERION YN CODI O'R COFNODION**

1401(3b) a 2191(1) - Garej Lôn – Nid oedd adroddiad pellach.

1774(4) - Gardd Sylvia Crowe, Sgwar y Ddraig a'r Adeilad Man Gwyllo – Nid oedd adroddiad pellach.

1842(2) a 1878(7) a 2024(4) - Cyflymder a Goleuadau Stryd Bronaber/ Damweiniau ar ffordd A470/A4212 – Ni chafwyd adroddiad gan nad oedd y Cyngorydd Elfed Roberts yn bresennol yn y cyfarfod. Cytunwyd y bydd y cyngorydd Elfed Roberts yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

1962(1) a 2138 - Adeiladau Cyhoeddus y Pentref – Adroddwyd na fu'r cais yn un llwyddianus gan bod ymgysylltiad ar gymuned yn gyfyngiedig. Adroddwyd bod cyfarfod gyda Nia Hughes yn cael ei gynnal ar y 7fed o Fawrth i drafod ymhellach.

2068(2) - Mynwent Pen Cefn – Adroddwyd bod Mr Chris Hall wedi cwblhau'r arolwg a wedi gyrru adroddiad. Penderfynwyd y byddai'r swyddog Ariannol yn anfon yr adroddiad ymlaen i Mr Eric Edwards. Cytunwyd yn ogystal y byddai'r swyddog ariannol yn cysylltu â Mr Eric Edwards er mwyn cadarnhau ei fod eisiau parhau i wneud y gwaith.

2085(3) - Llys Ednowain – Adroddwyd bod holiadur wedi ei dderbyn gan y cyfreithwyr. Llenwyd yr holiadur gan y Swyddog Ariannol, y Cadeirydd, a'r cyngorydd Anest Smith. Nid oedd ymateb hyd yma gan y cyfreithwyr. Atgoffwyd bod angen i blac Hedd Wyn gael ei dynnu i lawr o Lys Ednowain.

2099(6) - Marciau Gwyn y Pentref/Maes Parcio Bryn Glas – Adroddwyd bod y cadeirydd Hefin Jones wedi gyrru lluniau o'r marciau gwyn, mesur y llinellau a gyrru cynllun i Mr Rhys Williams er mwyn iddo ei brisio i'r cyngor. Nid oedd ymateb hyd yma.

2229(7) - Lloches Bws Ty Gwyn – Adroddwyd bod e-bost wedi ei dderbyn gan Mrs Rhian Williams a'i bod wedi gyrru'r wybodaeth ymlaen i YGC am sylwadau pellach.

2247(2) - Meinciau Gardd Salem – Adroddodd y Cyngorydd Enid Roberts ei bod wedi cael sgwrs gyda Mr David Owen a nad oedd y meinciau heb gyrraedd yno eto. Nid oedd y tywydd wedi caniatáu i'r gwaith barhau yn ystod y mis.

2252(3) - Cofeb Hedd Wyn (Naomi Jones Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) – Adroddwyd bod y Cadeirydd Hefin Jones a'r Cyngorydd Keith O'Brien wedi mynychu cyfarfod gyda Naomi Jones. Cadarnhawyd yn y cyfarfod y byddai'r Parc Cenedlaethol yn adalu'r Cyngor Cymuned ar gyfer y costau proffesiynol canlynol: Ffi'r pensaer cadwriaethol £2,500, ffi CDM £350, a ffi mesur 3D £375. Adroddwyd y byddai'r pensaer Rhys Davies yn anfon anfoneb at y Cyngor Cymuned a byddai'r Parc Cenedlaethol yn talu'r swm cywir i'r cyngor Cymuned i dalu Rhys Davies. Cytunwyd gan y cyngor y byddent yn neilltuo £1000 o arian tuag at y gofeb ac i anfon e-bost yn ôl i Rhys yn derbyn y prisiau a gofyn iddo baratoi'r cais cynllunio.

2255(1) - Pont droed Llyn Trawsfynydd – Adroddwyd y bydd cyfarfod arbennig yn cael ei gynnal ar y 3ydd o Fehefin am 7yh yn y neuadd i drafod y bont droed. Cytunwyd i wahodd Elin Parry Jones, Bill Hamilton a Liz Savile i'r cyfarfod.

2321(6) - Cae Chwarae Ty Llwyd – Adroddwyd bod polion newydd wedi eu gosod. Cytunwyd y byddai'r cyngorydd Enid Roberts yn gofyn am anfoneb i gwmni Tir a Choed.

2327(2) - Sedd Wâg – Adroddwyd bod yr hysbyseb wedi ei roi ar y safle we. Adroddwyd bod y rheolau i fod yn Gyngorydd fel â ganlyn: 18 oed, wedi cofrestru yn yr ardal neu yn byw, gweithio neu eu bod yn berchen ar eiddo yma am oleiaf 12 mis. Adroddwyd y byddai'n rhaid i unrhyw un sydd eisiau bod yn gyngorydd yrru llythyr neu e-bost yn datgan diddordeb.

2333(11) - Ffordd tu cefn i 1-6 Bro Prysor – Adroddwyd y buasai'r cyngor yn cefnogi tenantiad a pherchnogion 1-6 Bro Prysor pe baent yn gyrru llythyr i Adra os yw unrhywbeth yn codi yn y dyfodol.

2334(1) - Gwefan y Cyngor – Adroddwyd bod y Cadeirydd Hefin Jones, y swyddog ariannol a'r clerc wedi mynychu'r cyfarfod ar Teams gyda Gwe Cambrian. Cadarnhawyd ar y cyfarfod mai opsiwn A fydda'r un a fyddai'n cael ei ddefnyddio gan y cyngor. Cytunwyd i yrru dogfennau perthnasol i Gwe Cambrian ac i roi cyswllt i wefan Trawsnewid ar wefan y cyngor.

2362(2) - Polisi Cyfieithu y Cyngor – Adroddwyd ein bod wedi derbyn sampl o bolisi cyfieithu gan Gyngor Tref Nefyn dros e-bost. Penderfynwyd y byddem yn mabwysiadu'r polisi laith yma.

2365(1) – Y Fferyllfa - Derbynwyd ateb gan Mr Adam Maccridge yn nodi bod angen aros am gyfnod o 30 diwrnod cyn y byddent yn dod i benderfyniad. Penderfynwyd y byddem yn ail gysylltu i weld a oedd diweddariad yn y broses.

2367(1) – Clirio Llys Ednowain – Adroddwyd nad oedd neb wedi cael llawer o gyfle i fynd yno a bod y gwaith clirio'n dal i barhau. Atgoffwyd eto bod angen i blac Hedd Wyn gael ei dynnu i lawr er mwyn i'w roi i'r pensaer Rhys Davies.

2367(2) – Safle Bws Maes Gwyndy – Dim ymateb i'r e-bost. Cytunwyd i ail yrru'r ohebiaeth ymlaen.

2367(4) - Ffordd o'r Chalets Bronaber i Penstryd – Derbynwyd ymateb gan Adrian Williams yn nodi nad oedd unrhyw ddiffyg yn ei ymweliad diwethaf. Cytunwyd i ail e-bostio Adrian Williams i ofyn yn garedig iddo edrych yn fwy manwl a ein bod eisiau iddo edrych o'r groesffordd i Benstryd yn benodol.

2367(7) – Cwmni Eginio – Cytunwyd i ysgrifennu e-bost i Gwen Parry Jones, cwmni eginio a Vaughan Gethin yn datgan ein siom am nad oedd Trawsfynydd ar y rhestr fer bellach.

2367(8) – Ffordd Cyngor at Bryn Llin – Adroddwyd bod gwaith wedi cael ei wneud ar y ffordd yma. Adroddwyd y byddai'r cyngorydd Anest Smith yn gwirio os yw'r ffordd wedi derbyn sylw digonol.

2379(1) Safle Bws Bron Aber - Cytunwyd y byddai'r cynghorydd Richard Davies yn mynd yno i glirio'r sbwriel.

2379(2) Drain ar ffordd Stesion - Adroddwyd na fyddai cwmni Tir a Choed yn medru gwneud y gwaith gan bod y drain yn uchel i fyny. Cytunwyd i e-bostio Adrian Williams i ofyn i'r cyngor wneud y gwaith.

2379(3) 6 Bro Islyn a 22 Cefn Gwyn -Adroddwyd y byddai'r cynghorydd Elfed Roberts yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

2379(4) Bryn y Gofeb - Adroddwyd bod y cynghorydd Enid Roberts wedi gofyn i Robert Williams wneud y gwaith o drwsio y bariau metal sydd ar wal ym Mryn y Gofeb. Adroddwyd bod angen cysylltu â Dafydd Morris i gynorthwyo gyda'r gwaith.

### **2383 – GOHEBIAETH**

- (1) Cais Cynllunio - NP5/78/581A- Codi adeilad offer a storio i ddibenion amaethyddol Glan Llafar, Cwm Prysor, Trawsfynydd, LL41 4TP – cytunwyd derbyn a chefnogi'r cais.
- (2) Cais Cynllunio - NP5/78/55F - Estyniad i adeilad amaethyddol presennol. Tyddyn Mawr, Bronaber, Trawsfynydd. LL41 4YE – Cytunwyd derbyn a chefnogi'r cais.

### **2384 - ADRODDIAD ARIANNOL**

- (1) Derbyniwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol. Cytunwyd i roi £150 yng nghronfa'r cadeirydd am eleni.

### **2385 - FFURFLEN FLYNYDDOL**

- (1) Derbyniwyd a chadarnhawyd y cyfrifon am y flwyddyn a llofnodwyd y Ffurflen Flynyddol gan y Cadeirydd. Cadarnhaodd y Swyddog Ariannol y bydd y ffurflen flynyddol a'r dogfennau anghenrheidiol yn cael eu hanfon ymlaen i Gyngor Gwynedd ar gyfer yr Awdit Mewnol.

### **2386 - MATERION I'W TRAFOD AR Y PRYD**

(1) Ffordd Cwm Hespian – Adroddwyd gan y cynghoryd Anest Smith fod y ffordd wedi dirywio'n sylweddol. Cytunwyd i yrru'r ohebiaeth ymlaen i Adrian Williams.

(2) Toiledau cyhoeddus- Adroddwyd bod y toiledau cyhoeddus ar gau am 4:30yp. Cytunwyd i e-bostio Cyngor Gwynedd ynglyn ar mater.

(3) Adroddwyd bod talpiau o darmac ar goll o'r ffordd ym Mhen y Garreg, wrth ymyl Bryn Dedwydd a siop Glyndŵr. Cytunwyd i e-bostio Adrian Williams i ofyn pe baent yn edrych ar y pentref ac yn benodol ar y safleoedd canlynol.

Nid oedd materion ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Nid oedd adroddiadau o'r cyfarfodydd yn ystod y mis.